# Gwybodaeth i Gleifion

# Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf

# Obstetreg a Gynaecoleg

## Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf (PIFU)

Mae'r gwasanaeth Gynaecoleg wedi datblygu'r Gwasanaeth Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf, sydd wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer cleifion sy'n rheoli eu cyflwr meddygol yn dda ond y mae eu symptomau'n gwaethygu o bryd i'w gilydd. Bydd y gwasanaeth yn lleihau ymweliadau diangen â'r ysbyty, yn lleihau amseroedd aros cleifion ac yn rhyddhau'r timau clinigol i weld mwy o gleifion yn brydlon.

## Beth yw 'apwyntiad dilynol ar gais y claf'?

Efallai y cyfeirir ato fel 'PIFU'. Mae Apwyntiad Dilynol ar Gais y Claf yn eich rhoi chi mewn rheolaeth. Gallwch wneud apwyntiad i'n gweld os oes gennych unrhyw bryderon am eich cwyn wreiddiol a gyflwynwyd yn hytrach na chael ymweliad rheolaidd â'r clinig. Mae ymchwil wedi dangos nad yw cael apwyntiad cleifion allanol dilynol rheolaidd yn helpu i atal eich cyflwr rhag dychwelyd nac yn nodi problemau newydd. Mewn gwirionedd, mae llawer o bobl yn canfod bod ymweliadau dilynol â'r ysbyty yn achosi llawer o bryder diangen. Nid oes angen apwyntiadau dilynol rheolaidd gan dîm yr ysbyty ar lawer o gleifion sydd â chyflyrau hirdymor. Mae rhai cleifion yn mynegi pryder ynghylch colli cysylltiad rheolaidd â'r ysbyty. Mae gan bawb deimladau gwahanol pan nad oes angen iddynt gael eu gweld yn rheolaidd gan eu tîm meddygol mwyach. Mae gan bob claf anghenion unigol. Ar gyfer cleifion sydd â rhai cyflyrau anfalen megis endometriosis a phoen yn y pelfis, rydym yn trefnu PIFU am ddwy flynedd. Ar gyfer cleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser, bydd y PIFU hyd at bum mlynedd, yn dibynnu ar y diagnosis. Ar gyfer pob pryder arall, neu os ydych yn teimlo'n sâl, eich Meddyg Teulu fydd eich pwynt cyswllt cyntaf o hyd.

## Sut wyf yn trefnu apwyntiad dilynol ar gais y claf?

Mae'r gwasanaeth yn gyflym ac yn hawdd ei ddefnyddio. Anfonwch e-bost at ABB.GynaeBookingTeam@wales.nhs.uk neu ffoniwch 01633 234400 a byddwch yn cael eich ychwanegu at y rhestr aros ddilynol am apwyntiad pellach gyda'r gwasanaeth. Bydd y Tîm Trefnu Apwyntiadau yn cysylltu â chi pan ddaw apwyntiad ar gael. Nodwch, ni all y Tîm Trefnu Apwyntiadau roi unrhyw gyngor clinigol.

**"Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg /
This document is available in English."**